

Y CRIW



F/O Hank Ferris



Sarjiant Mike Gurika



Sarjiant Jack Wagstaff



Sarjiant Norm Millar



Flt/Lt Harold D O'Neill



F/O Jim Dunlop



F/O W A Steele



Dinistr ar ôl i Halifax gwymmpo i'r ddaear

Yr wythnos ddiwethaf cyhoeddwyd erthygl gan **Gareth Pritchard** o bapur bro Y *Pentan* am awyren De Havilland Vampire yn taro'r ddaear yn Nhalacre ar Hydref 14, 1958. Yma, mae Gareth yn adrodd hanes damwain arall a ddigwyddodd yn ardal y papur bro



MAE'N anodd credu bod cymaint o ddamweiniâu awyr wedi digwydd yn ardal Y *Pentan* yn ystod adeg yr Ail Ryfel Byd yn enwedig. Ar y 27ain o Hydref, 1943, 'roedd criw o saith wedi hedfan o Wombleton yn Swydd Efrog mewn awyren Halifax i Reading a Chaerfaddon a thros Fôr Hafren yn ne Lloegr.

Gwŷr o Canada oedd chwech ohonynt a Sais oedd y seithfed, sef y peiriannydd, Sarjiant Jack Wagstaff. Flt/Lt Harold D O'Neill oedd y peilot, F/O Jim Dunlop oedd y cyfeiriwr, F/O W A Steele yn gyfrifol am ollwng y bomiau, F/O Hank Ferris yn gyfrifol am y radio a dau arall, Sarjiant Mike Gurika a Sarjiant Norm Millar yng ngofal y gynnu.

Ar y ffordd yn ôl cododd problemau. 'Roedd yr awyren i fod i hedfan ar uchder o 17,000 o doedfeddi, ond oherwydd effeithiau rhow, 'doedd y 'superchargers' ddim yn gweithio'n iawn a cholliwyd pŵer.

Ceiswyd newid cwrs droeon i osgoi'r cymylau cumulus-nimbus, ond yn ofer.

Yn anffodus, 'r oedd yr awyren yn disgyn yn is ac yn is ac fe baratowyd y criw i wisgo'u parasiwtiau a bod yn barod i neidio allan!

Erbyn hyn 'roedd yr awyren yn ardal Conwy ac anfonwyd SOS gan Ferris ar y radio. 'Roedd nifer o bobl Cyffordd Llandudno yn ymwybobol o'r ddrama uwchben. Cyn neidio allan, ceisiodd y peilot, O'Neill, anelu'r awyren am y môr, ond troi mewn cylch a wnaï, a'r troad olaf dros y Gogarth Fach i gyfeiriad Bae Colwyn.

Trawodd y ddaear am 23.35.

Yn Afon Conwy y syrthiodd Jim Dunlop. Wrth lwc, 'roedd ei 'Mae West' yn iawn. Clywodd lais ar y lan a nofiodd i'r cyfeiriad. Richard Price, prif arddwr Benarth oedd yno yn aber Afon Gyffin, ger y Castell. Daeth Hilda Wadle i'w helpu a llwyddwyd i'w dynnu ar y creigiau a'i achub. Aed ag ef i'r tŷ am fath a dillad sych a hysbysu'r awdurdodau.

Daeth Bill Steele i lawr yn y mwd ar ochr Cyffordd o'r afon a bu'n rhaid iddo ymlwybro (heb ei sgidiau) i orsaf y rheilffordd yng Nghyffordd Llandudno. Yno'n ei ddisgwyl 'roedd Sarjiant Gurika oedd wedi glanio tua'r un fan.

Glaniodd Millar a Wagstaff ar gaeau Fferm Hendre Wen, Lôn Pabo, Cyffordd Llandudno, (yn agos at Ffordd A470 heddiw). Gwelwyd hwy gan Tom ac Elizabeth Davies a'u merch oedd yn dair ar ddeg oed ar y pryd. Mae hi'n cofio'r digwyddiad yn iawn. Pan edrychodd drwy ffenest ei llofft, ar ôl clywed sŵn, gwelodd rhywbeth fel madarch anferth yn disgyn o'r awyr - parasiwt erbyn deall! Aethant â'r ddau ddydd i'r ffermyd at Richard a Lillian Owen a'u merch fach Anwen oedd yn deirblwydd oed ar y pryd (Mrs Anwen Hughes, Hendre Creuddyn, erbyn hyn).

Mae Mrs Lillian Owen (sy'n 101 oed) yn cofio'r digwyddiad yn dda.

Meddai hi: "'Roedd Millar wedi troi i ffer ac wedi colli ei sgidiau. Cafodd fenthyg 'slipars' Richard Owen, ond welodd o mohony'n nhw byth wedyn!" Y peilot, Harold D O'Neill ordd yr olaf i adael yr awyren ac fe laniodd o ger Ffordd Dinerth, Llandrillo yn Rhos.

'Doedd dim golwg o Hank Ferris, gwŷr y radio. Ond, y bore wedyn darganfuwyd ei gorff ble mae Stablau Pinewood ar Ffordd Sychnant, Conwy. Yn anffodus, 'doedd o ddim wedi clymu strapiau ei harnes ar y par-



Lillian Owen



John Glyn Jones yn darllen yr erthygl wreiddiol am ddamwain yr Halifax a ymddangosodd yn Y *Pentan*

asiwt, ac, o ganlyniad, pan agorodd hwnnw, fe syrthiodd Ferris yn syth i'r ddaear a'i ladd.

Ble 'roedd yr awyren?

'Roedd hi wedi taro'r ddaear yn ardal Bryn Pydew gan deithio o gyfeiriad y môr, ar dir Fferm Bodysgawen, cartref Mr a Mrs Zachariah Jones a'u mab John Glyn oedd yn bymtheg oed. Fe chwalyd nifer o feudai, aeth yr awyren yn ei blaen drwy'r berllan a gwrych cyn croesi'r ffordd ac i fyny'r allt. Yn ôl adroddiad yn y *Weekly News* ar y pryd, digwyddodd y ddamwain tua 11.30 ar nos Wener a lladdwyd dwy fuwch, merlen, hwch a nifer o ieir. Fe wnaed merlen yn ddall, a bu'n rhaid ei saethu yn ddiweddarach. Diflannodd yr un ar bymtheg o gwingod oedd gan John Glyn mewn cwt.

Rhai munudau ynghynt 'roedd Mrs Jones wedi edrych drwy'r ffenest a gweld bod y das wair ar dân. Cododd Zachariah Jones o'i wely i weld beth oedd yn bod, ond cysgodd John Glyn drwy'r cyfan! 'Roedd Pero'r ci, oedd wedi ei gloi mewn beudy, yn cyfarth yn ffymig. Diflannodd Pero am rai dyddiau, ond dychwelodd yn ddiweddarach.

Gwelwyd y ddamwain gan blismon o Gonwy a galwodd yr NFS yn Llandudno, a daeth injan dân ar frys i ymladd y fflamau. Yn yr adroddiad canmolwyd PC Ellis o Fae Penrhyn am ei ymdrechion a'r Cynghorydd T. Rhys Evans o Bydew, oedd yn ogystal â bod gynghorydd, yn blismon 'sbesial'.

Wedi i'r hanes gael ei gyhoeddi yn Y *Pentan* cysylltodd John Glyn Jones sydd erbyn hyn yn 85 oed ac yn byw yng Nghyffordd Llandudno â'r papur.

Dyma atgofion John ei hun:

"Rydwi i wedi mwynhau'r hanes yn fawr yn Y *Pentan* ac am eu canmol am roi disgrifiad mwy cywir ac am ddadlennu ffeithiau na wnaeth ymddangos mewn unrhyw lyfr! Y noson dyngedfennol honno roeddwn yn cysgu yn y siambr a'm rieni yn y llofft uwchben. Daeth Mam i lawr yr ysgol a neffro ar ôl clywed Pero'r ci yn cyfarth. Edrychais drwy'r ffenestr a rhyfeddu o weld iâr y tu allan am 11.30yh.

'Roedd adain yr awyren wedi taro tas wair a'i rhoi ar dân a dyna sut yr oedd yr iâr yno. Bu clec fawr a dihangodd Mam o dan y bwrdd i ymguddio! Dyna'r adeg y trawodd y gweddill o'r awyren y ddaear. 'Yna clywyd sŵn curo ar y drws. Tudor Roberts ac Aneurin Jones oedd yno ar eu ffordd o chwarae Chwist ac yn ceisio rhybuddio'r teulu. Bu Tudor Roberts yn ddewr iawn yn ceisio gollwng y ceffyl yn rhydd o'r stabl a chafodd lygad ddu am ei drafferth!

"Pan wawriodd y bore wedyn, gwelsom faint y ddfrod. 'Doedd gan y teulu ond dau degell a thebot, ond 'doedd dim bwyd o gwbl! 'Roedd y gormel o'r tŷ oedd agosaf at y beudy wedi llosgi. 'Roedd fy nghwningod wedi diflannu ac yn ôl pob tebyg wedi llosgi'n llwyr. Bu Pero'r ci ar goll am rai dyddiau a phan ddychwelodd 'roedd rhan o'i got wedi llosgi!"

Yr hyn sy'n aros yng nghof John Glyn yw caredigrwydd rhyfeddol pobl y gymdogaeth. Bu ef yn aros gyda'i ffrind David Davies yn y Rofft ac mae'n cofio cael brecwast gyda Rhys Evans yn y siop leol y bore hwnnw.

Ond yr hyn sy'n drist yw na fu ei rieni fyth yr un fath ar ol hynny gan i'r ddamwain amharu ar eu hiechyd.